



## Canllaw e-ddiogelwch i rieni Clwstwr Glantaf



Mae'r byd digidol yn newid yn gyflym.

Crëwyd y canllawiau yma, am sut i gadw'ch plentyn yn ddiogel yn y byd digidol, gan ysgolion Cynradd y clwstwr, ar y cyd gydag Ysgol Glantaf.

**Llythrennedd Digidol**

**Ôl-troed digidol**



**Cymhwysedd Digidol**

# Cyfyngiadau oed ar gyfer rhwydweithiau cymdeithasol

- Allwedd
- Rhwydweithiau cymdeithasol
- Oedran disgybl
- Blwyddyn Ysgol

- YouTube
- WeChat
- Kik
- Keek
- Foursquare
- Flickr


- Facebook
- Twitter
- Instagram
- Snapchat
- Vimeo
- Tumblr
- Reddit
- Pinterest
- Google+
- Musical.ly

Path

Vine  
Tinder

Whatsapp

LinkedIn



Ysgol Gynradd

BI 7

BI 9

BI 10

BI 11

BI 12

BI 13

BI 13



Pencae



Y Wern




Pwll Coch



Melin Gruffydd



Glantaf



Mynydd Bychan



Glan Morfa



Glan Caubal

Mae gwasanaethau defnyddwyr rhyngweithiol a rhwydweithio cymdeithasol yn cynnig nifer o gyfleoedd cadarnhaol i blant ac oedolion gyfathrebu, rhyngweithio a rhannu profiadau a diddordebau. Mae'r safleoedd yn cynnig cyfleoedd i

- Sgwrsio
- Chwarae gemau
- Rhannu ac edrych ar ffotograffau a fideos
- Blogio
- Rhannu proffil ar-lein

Fodd bynnag, mae'n bwysig defnyddio'r safleoedd hyn mewn ffordd addas. Dylid cymryd pob cyfeiriad at rieni yn y llyfryn hwn i gynnwys gwarcheidwaid ac eraill sydd â chyfrifoldeb dros blentyn/berson ifanc.

## Diogelu Eich Hunan, Diogelu Eich Plant

Mae ysgolion Clwstwr Glantaf yn argymhell defnyddio'r Rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd gyfrifol er mwyn cefnogi gwaith dysgu a chyfathrebu'n well â rhieni. Bydd mwy a mwy o rieni a phlant/pobl ifanc yn defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol ac 'apps' fel Facebook, Trydar a SnapChat erbyn hyn wrth siarad â ffrindiau. Serch hynny, y mae llawer o ddefnyddwyr o dan gamargraff eu bod yn ysgrifennu ar gyfer grŵp bach o ffrindiau yn unig, heb feddwl y gallai eu gwybodaeth fod ar gael yn gyhoeddus a chael ei ddarllen gan gynulleidfa lawer ehangach. Mae'n bosibl hefyd fod rhai rhieni am drafod materion ysgol yn gwbl agored.

Mae pob ysgol yn gwerthfawrogi ymateb rhieni a gwarcheidwaid, a byddwn bob amser yn ymdrechu i ddatrys unrhyw broblemau cyn gynted ag sy'n bosibl. Serch hynny, rydym yn ymwybodol bod yna nifer fach o rieni wedi defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yn y gorffennol i wneud sylwadau amhriodol am ysgolion neu staff ac athrawon unigol.

Sylwer os gwelwch yn dda:

- Mae'n werth cofio y gall datganiad a wnaethpwyd ar y we, boed yn ddifriol neu beidio, fod yr un mor ddifrifol yn llygad y gyfraith â phe bai wedi'i wneud yn wyneb unigolyn.
- Gall hyd yn oed arwain at erlyn unigolion weithiau, o dan ddeddfau fel Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988; Deddf Cyfathrebu 2003; Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997; Deddf Cyfiawnder Troseddol 2004 a Deddf Trefn Gyhoeddus 1986.

Bydd y sawl a ddyfernir yn euog o drosedd o dan y ddeddfwriaeth uchod mewn perygl o gael ei rybuddio, ei ddirwyo neu hyd yn oed ei garcharu am gyfnod sylweddol.

Mathau o gyfathrebu sy'n cael eu hystyried yn drosedd yw

- 1) unrhyw fygythiadau credadwy o drais yn erbyn unigolyn neu eiddo
- 2) unrhyw gyfathrebu sy'n targedu unigolyn yn benodol ac yn gyfystyr ag aflonyddu neu ystelcio
- 3) unrhyw gyfathrebu sy'n hynod dramgwyddus, anwedus, anllad, bygythiol neu gelwyddog.

## Cyngor Cyffredinol

★ Cofiwch annog eich plant i drafod unrhyw beth sy'n eu gwneud nhw'n anghysurus ac os yn briodol bod modd defnyddio'r botwm 'adrodd cam-drin' ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol.

★ Siaradwch â'ch plant ynghylch y ffordd maen nhw'n defnyddio'r rhyngwrwyd – gofynnwch iddynt rannu beth maen nhw wedi bod yn ei wneud gyda chi.

★ Gosodwch reolau eglur - ystyriwch lunio cytundeb teulu ar gyfer diogelwch ar-lein.

[http://www.safekids.com/contract\\_kid//](http://www.safekids.com/contract_kid//)

<http://www.safekids.com/teen-pledge-for-being-smart-online/>

[http://www.safekids.com/contract\\_parent.htm](http://www.safekids.com/contract_parent.htm)

★ Trafodwch ac edrychwch ar yr ystafelloedd sgwrsio a'r gwefannau negeseua gwib

★ Cofiwch, mae'n bosibl i blant gael mynediad i'r rhyngwrwyd trwy eu ffonau symudol a dyfeisiau chwarae gemau (e.e. Nintendo Wii, X Box, teledu rhyngweithiol).

★ Mae nifer o blant yn chwarae gemau sydd yn anaddas ar gyfer eu hoedrannau gyda rhai hyd yn oed yn cyfaddef eu bod yn chwarae gemau sydd â thystysgrif o 18+ h.y. bod disgwyl iddyn nhw fod yn 18 mlwydd oed neu'n hŷn i'w chwarae. Dyma rhai gwefannau defnyddiol i'ch cynorthwyo i sicrhau fod eich plant yn chwarae ac yn defnyddio'r hyn sydd yn addas ar eu cyfer.

<http://www.pegi.info/>

[www.commonsemmedia.org](http://www.commonsemmedia.org)

<http://www.bewebsmart.com/ipod-ipad-iphone/how-to-restrict-apps-by-rating/>

<https://www.saferkid.com/app-reviews-for-parents>

<https://www.internetmatters.org/advice/apps-guide/>

<https://www.net-aware.org.uk/#>

<https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/keeping-children-safe/online-safety/>

## Rhannu gwybodaeth

- ★ Nodwch y cyfyngiadau oedran perthnasol i safleoedd rhwydweithio cymdeithasol sydd ar y poster yn y pecyn.
- ★ Sicrhewch eich bod chi a'ch plant yn addasu'r gosodiadau er mwyn diogelu'ch preifatrwydd. Gweler yr atodiadau yng nghefn y llyfryn am fwy o gyngor ar sut i wneud hyn.
- ★ Anogwch fod eich plant yn defnyddio cyfrifiaduron a gliniaduron mewn ystafell deuluol lle mae'n bosibl i chi eu monitro - ddim yn yr ystafell wely.
- ★ Yn aml, mae pobl yn credu bod y gwefannau hyn yn llefydd preifat, mewn ffordd debyg i ddyddiadur personol a llyfr cyfeiriadau. Helpwch eich plant i ddysgu pa wybodaeth ddylai fod yn breifat e.e. cyfeiriadau, rhifau ffôn ac enw eu hysgol.

## Cyfathrebu Cyfrifol a Diogel

- ★ Oherwydd bod y rhyngwrwd yn anhysbys, mae cyfathrebu ar-lein yn gwneud i blant ac oedolion deimlo'n fwy rhydd i wneud a dweud pethau ar-lein na fyddent yn ei wneud yn unrhyw le arall maen nhw'n eu defnyddio.
- ★ Defnyddiwch osodiadau preifatrwydd i gyfyngu pwy sy'n gallu cael mynediad at eu proffiliau a phwy sy'n gallu cyfrannu atynt. Dylid cyfyngu proffiliau i ffrindiau a theulu y gellir ymddiried ynddynt.
- ★ Cofiwch, mae'r rhan fwyaf o wefannau wedi'u eu gosod yn 'broffil cyhoeddus' nes eich bod chi yn eu newid i fod yn 'broffil preifat'.
- ★ Sicrhewch fod y delweddau a gwybodaeth mae eich plant yn eu rhannu yn addas
- ★ Byddwch yn ymwybodol ei bod yn hawdd rhannu unrhyw wybodaeth neu ddelweddau sy'n cael eu postio ar-lein neu unrhyw rwydweithiau cymdeithasol ee "apps" fel Snapchat a Kik, a'i bod yn amhosibl eu hawlio nhw'n ôl.
- ★ Byddwch yn ymwybodol bod angen cael caniatâd cyn postio delweddau o bobl eraill ar-lein neu unrhyw rwydweithiau cymdeithasol.
- ★ Nid yw'n dderbyniol i rieni/plant wneud sylwadau anaddas am sefydliadau ysgol, aelodau staff neu aelodau o gymuned unrhyw ysgol ar unrhyw safle rhwydweithio ar-lein (e.e. Facebook).
- ★ Bwlio neu aflonyddu sy'n digwydd ar-lein yw seiberfwlio. Mae'n gallu digwydd trwy ebost, neges destun, gêm ar-lein, neu sylwadau ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Mae'n bosibl ystyried y gweithgareddau yn droseddau.
- ★ Os oes achos o seiberfwlio, cysylltwch gyda'r ysgol fel man cychwyn.
- ★ Cofiwch drafod gyda'ch plant ei fod yn bosib darganfod pwy sydd wedi danfon neges, pryd gafodd ei ddanfon ac union leoliad y cyfrifiadur/teclyn. Mae gan pob un ohonom ôl troed digidol (digital footprint).

## Mwy o wybodaeth

[Cardiff Against Bullying](#)

<http://www.ceop.gov.uk>

<http://www.thinkuknow.co.uk>

<http://www.getsafeonline.org>

[www.bullying.co.uk](http://www.bullying.co.uk)

[www.kidsmart.org.uk](http://www.kidsmart.org.uk)

[www.childnet.com](http://www.childnet.com)

<http://www.digizen.org.uk/>

[www.wisekids.org.uk](http://www.wisekids.org.uk)